Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 29ain o Fedi 2025 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**
Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris ynghyd a Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)
1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd Lona Harris.
Roedd ymddiheuriad gan Cyng WRP Jones.
Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain Gorffennaf** ar gynnig Cyng Eurgain Haf Davies a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.
4. **Materion yn codi.**

a) **Cronfa 'Gwynedd Ni'** - adroddwyd y diweddaraf, a'r hyn a gyflwynwyd cyn y dyddiad cau, sef gwelliannau i'r toiledau a'r gwelliant/taclusrwydd y safle beics ger Cefn Coch. Cafwyd 3 amcangyfrif i waith y toiledau, a dewiswyd M A Greaves ar gyfanswm o £6,408.00. Roedd gwybodaeth llawn wedi ei yrru i bawb o'r Cynghorwyr. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb oedd wedi cynorthwyo.

b) **Ystyried trefniadau i gael Cyngorydd o'r newydd yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Catrin Rutherford –** adroddodd y Clerc am y datblygiadau. Roedd hysbyseb yn gwahodd diddordeb mewn etholiad wedi ymddangos ar yr hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor ers mis Awst, ac nid oedd neb wedi ymateb erbyn y dyddiad cau o'r 26ain o Fedi. Roedd angen felly mynd ymlaen felly i wahodd enw i'w gyfethol, a byddai'r Clerc yn trefnu rhoi hysbyseb ger y Neuadd yn Lanegryn, ac ar wefan y Cyngor Cymuned, gyda dyddiad cau 31ain Hydref.

5. **Materion Cynllunio**
Nid oedd unrhyw faterion cynllunio gerbron.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - nodwyd nad oedd ymateb pellach i law gyda'r cyfrifon

Cadarnhwyd balansau'r banc ar 29.09.25, sef Cyfri Cyfredol £7617.53 a Cyfrif Business Manager £6522.20. Cadarnhawyd fod ail ran y praesept i law, sef £3925.

b) **Anfonebau i'w talu**

Ar gynnig Cyng Lona Harris, a'i eilio gan Cyng William Davies, cytunwyd yn unfrydol i dalu'r canlynol;

- Anfoneb Cyngor Gwynedd – Archwilio mewnol 2024-2025 - £402.00
- Cydnabyddiaeth ail chwarter i'r Clerc, £400.01 ynghyd a taliad HMRC £100.
- Torch Sul y Cofio - £25. (cadarnhaodd y Clerc y byddai yn trefnu i'r siec, oedd yn daladwy i 'Royal British Legion Poppy Appeal' gael ei danfon i Darren

Heselton drwy law Shan Jones. Diolchwyd yn fawr i Shan am ei chymorth efo hyn) Cadarnhawyd hefyd y byddai'r Cyng Alwyn Roberts (Cadeirydd) a Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) yn bresennol ar Sul y Cofio ar ddydd Sul 9fed Tachwedd.

c) **Ystyried unrhyw geisiadau am arian**

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – nodwyd wybodaeth diweddar i law, a phenderfynwyd peidio cyfrannu am y tro.

**6. Gohebiaeth.**

- Cadarnhwyd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru hyd ddiwedd Rhagfyr a chynllun hyfforddiant y Cyngor
- Nodwyd ohebiaeth Cyngor Gwynedd ynglyn a gwaith Priffyrdd a llwybrau oedd ar y gweill.
- Nodwyd e-bost Sandy Andrews, Clerc Cyngor Aberdyfi ynglyn a syniad am gynllun trafnidiaeth cymunedol yn yr ardal. Cadarnhwyd fod y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor.
- Nodwyd e-bost Hywyn Williams o Gyngor Gwynedd ynglyn a rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd, a'r cyfle am gyllid i wella tir er budd natur.
- Nodwyd e-bost gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, ynglyn a dydodol Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn, ac yn cynnig ein cyfarfod. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd i'r cyfafod nesaf ar yr 18fed o Dachwedd am gyflwyniad hanner awr.
- Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi danfon y ffurflen arferol i Lywodraeth Cymru yn cadarnhau nad oedd neb o'r Cynghorwyr wedi hawlio taliad yn y flwyddyn 2024-25.

7. **Unrhyw fater arall.**

- Diolchwyd unwaith eto i'r Cyng Catrin Rutherford am ei gwaith i'r Cyngor dros y blynyddoedd, a byddai'r Clerc yn trefnu fod neges o ddiolch yn cael ei danfon ati.
- Adroddodd Cyng Beth Lawton am ei gwaith yn yr ardal, gan gynnwys cyfarfodydd gyda Ysbyty Tywyn, a'r ymdrechion i gael bysiau ddod mewn i bentref Llanegryn. Roedd trafodaethau yn parhau gyda Lloyds / Cyngor Gwynedd.
- Cadarnhaodd Cyng Eurgain Davies ei bod yn trefnu i gael y llun o agoriad swyddgol yr Ardd Goffa ar yr 20.06.25 wedi ei fframio, a'i roi ar wal y Neuadd, ac y byddai hyn yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Neuadd nesaf.
- Cadarnhodd Cyng Beth Lawton y byddai yn trefnu cael 2 Goeden Nadolig i'r pentref eto eleni, a diolchwyd yn fawr am hyn. Byddai y Cyngor Cymuned yn cyfarfod y gost fel arfer.
- Nodwyd fod parcio tu allan y Neuadd yn broblem cynyddol, ac roedd angen cael eglurhad o bwy sydd piau y tir yma. Byddai hyn dan drafodaeth yn y Pwyllgor neuadd nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS FAWRTH 18fed Tachwedd 2025 , 7.30y.h.**

**Minutes of the Council meeting held on Monday evening the 29th of September 2025 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.**

Present; Cllr. Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris together with Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Vice-Chairperson Lona Harris.

There was an apology from Cllr WRP Jones.

There were no declarations of interest about issues on the agenda.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on 28th July were confirmed on the proposal of Cllr Eurgain Haf Davies and seconded by Cllr Rhys Davies.

4. Matters arise.

a) 'Gwynedd Ni' Fund - the latest was reported, and what was presented before the closing date, namely improvements to the toilets and the improvement/tidy of the bike site near Cefn Coch. There were 3 estimates for the toilet work, and M A Greaves was chosen at a total of £6,408.00. Full information had been sent to all of the Councillors. Many thanks were given to everyone who had helped.

b) To consider arrangements to get a new Councilor following the resignation of Cllr Catrin Rutherford - the Clerk reported on the developments. An advertisement inviting interest in an election had appeared on the notice board and the Council's website since August, and no one had responded by the deadline of 26 September. It was therefore necessary to go ahead and invite a name to be co-opted, and the Clerk would arrange to place an advertisement near the Hall in Lanegryn, and on the Community Council's website, with a closing date of 31st October.

5. Planning Matters

There were no planning issues before.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - it was noted that there was no further response to the accounts

The bank balances were confirmed on 29.09.25, namely Current Account £7617.53 and Business Manager Account £6522.20. It was confirmed that the second part of the precept was received, namely £3925.

b) Invoices to be paid

On the proposal of Cllr Lona Harris, seconded by Cllr William Davies, it was unanimously agreed to pay the following;

• Gwynedd Council Invoice - Internal audit 2024-2025 - £402.00

• Second quarter remuneration to the Clerk, £400.01 plus HMRC payment £100.

• Remembrance Sunday Wreath - £25. (the Clerk confirmed that he would arrange for the cheque, payable to 'Royal British Legion Poppy Appeal' to be delivered to Darren Heselton via Shan Jones. Shan was greatly thanked for her help with this) It was also confirmed that Cllr Alwyn Roberts (Chairman) and Beth Lawton (Gwynedd Council) would be present on Remembrance Day on Sunday 9th November.

c) Consider any requests for money

• Cymru Air Ambulance - recent information was noted, and it was decided not to contribute for the time being.

6. Correspondence.

• Un Llais Cymru training dates until the end of December and the Council's training plan were confirmed

• Gwynedd Council's correspondence regarding Highways and paths work that was underway was noted.

• The email of Sandy Andrews, Clerk of Aberdyfi Council regarding an idea for a community transport scheme in the area was noted. It was confirmed that the Council was supportive in principle.

• Hywyn Williams' email from Gwynedd Council was noted regarding the Gwynedd Green Communities programme, and the opportunity for funding to improve land for the benefit of nature.

• We noted an email from the Betsi Cadwaladr Health Board, regarding the Dyfi Ward at Ysbyty Tywyn, and proposing to come to our meeting. It was agreed to invite a representative to the next meeting on the 18th of November for a half hour presentation.

• The Clerk confirmed that he had delivered the usual form to the Welsh Government confirming that none of the Councilors had claimed payment in the year 2024-25.

7. Any other matter.

• Cllr Catrin Rutherford was once again thanked for her work for the Council over the years, and the Clerk would arrange for a message of thanks to be delivered to her.

• Cllr Beth Lawton reported on her work in the area, including meetings with Ysbyty Tywyn, and the efforts to get buses into the village of Llanegryn. Negotiations were continuing with Lloyds / Gwynedd Council.

• Cllr Eurgain Davies confirmed that she was arranging to have the photo of the official opening of the Memorial Garden on 20.06.25 framed, and put it on the Hall wall, and that this would be discussed in the next Hall Committee.

• Cllr Beth Lawton confirmed that she would arrange to have 2 Christmas Trees for the village again this year, and we were very grateful for this. The Community Council would normally meet the cost.

• It was noted that parking outside the Hall was a growing problem, and it was necessary to have an explanation of who owns this land. This would be under discussion in the next hall Committee.

DATE OF NEXT MEETING;  LLANEGRYN HALL TUESDAY 18th November 2025, 7.30pm.